



Elin Jones, MS
Llywydd
Senedd Cymru
Cardiff Bay
CF99 1SN

5 Rhagfyr 2021

Annwyl Elin

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru)
(Diwygio) (Rhif 17) 2021**

Yn unol ag adrannau 4(1) a 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 rwy'n eich hysbysu nad yw'r Offeryn Statudol hwn wedi cydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod ac y bydd yn dod i rym am 04:00 o'r gloch ar 6 Rhagfyr 2021, cyn y gellir ei osod. Rwy'n bwriadu ei osod, ynghyd â'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, ar 6 Rhagfyr.

Mae'r offeryn statudol hwn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020, fel bod Nigeria yn cael ei ychwanegu at y 'Rhestr Goch' o wledydd.

Trwy beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod, bydd modd i'r Rheoliadau hyn ddod i rym ar y cyfle cynharaf a pharhau â'r dull pedair gwlad o ymdrin â theithio rhyngwladol; oherwydd y dystiolaeth newidiol ar risg mewn perthynas â'r afiechyd hwn ystyrir bod hyn yn angenrheidiol a bod modd ei gyfiawnhau yn yr achos hwn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'M. E. Morgan'.

Eluned Morgan AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services